# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-26-10 : Papur 3**

## Y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru)

### Nodyn Cyngor Cyfreithiol 1

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

### Y Cefndir

Cafodd y Mesur arfaethedig hwn ei gyflwyno gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 20 Medi 2010, a'i gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth 4 er mwyn iddo gyflwyno adroddiad arno erbyn 17 Rhagfyr 2010.

Diben y Nodyn Cyngor Cyfreithiol hwn yw nodi cyd-destun deddfwriaethol ystyriaeth y Pwyllgor ar y Mesur arfaethedig a nodi materion mewn perthynas â phwerau dirprwyedig i gael eu hystyried gan y Pwyllgor.

### Diben y Mesur Arfaethedig

3.Mae diben y Mesur arfaethedig wedi'i ddisgrifio yn y Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn:-

"Nod y Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr yw

gwella delwedd ac ansawdd cludiant penodedig i ddysgwyr a sicrhau bod y

safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn

cludiant penodedig i ddysgwyr."

### Cymhwysedd Deddfwriaethol

4. Mae'r Mesur hwn yn ymdrin â materion ynghylch diogelwch ar fysiau ysgol nad oedd modd ymdrin â nhw ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y prif Fesur") oherwydd diffyg cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Mesur hwn wedi'i seilio ar Fater 5.10 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

"Mater 5.10

Trefniadau i bersonau deithio i fannau eraill ac o fannau eraill lle y maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant.

Mae'r mater hwn yn gymwys i'r canlynol -

(a) personau sy'n cael addysg feithrin, gynradd, uwchradd neu bellach neu hyfforddiant;

(b) personau a ddisgrifir ym mater 5.17 sy'n cael addysg uwch."

5.Dyna'r cymhwysedd deddfwriaethol a oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol pan gafodd y prif Fesur ei wneud yn 2008. Er hynny, roedd yn amlwg nad oedd y cymhwysedd hwnnw'n ddigon eang i alluogi'r Gweinidog na'r Pwyllgor Deddfwriaeth i wneud yr hyn a oedd yn eu barn nhw'n briodol o ran diogelwch ar fysiau, a hynny oherwydd yr eithriadau perthnasol yn Atodlen 5. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gofyn am ragor o gymhwysedd ac, o ganlyniad i hynny, cafodd yr eithriadau hynny eu diwygio yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010.

6.Yr eithriadau perthnasol oedd –

"Rheoleiddio'r defnydd o gerbydau perthnasol ar ffyrdd, adeiladu a defnyddio cerbydau perthnasol, ac amodau y gellir defnyddio cerbydau perthnasol oddi tanynt" a

"Diogelwch trafnidiaeth".

Cafodd cymhwysedd ychwanegol ei roi drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 a hynny ar ffurf eithriadau i eithriadau, neu 'hepgoriadau'.

7.Mae'r eithriad cyntaf wedi'i ddiwygio i ddarllen (i'r graddau y mae'n berthnasol) fel a ganlyn -

"(2)Rheoleiddio'r defnydd o gerbydau perthnasol ar ffyrdd, adeiladu a defnyddio cerbydau perthnasol, ac amodau y gellir defnyddio cerbydau perthnasol oddi tanynt, ar wahân i – ...

(c)rheoleiddio'r disgrifiad o gerbyd y caniateir ei ddefnyddio'n unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr (gan gynnwys disgrifiad drwy gyfeirio at wneuthuriad neu gyfarpar cerbyd), ond heb gynnwys pennu safonau technegol ar gyfer gwneuthuriad neu gyfarpar sy'n wahanol i'r safonau a fuasai fel arall yn gymwys, neu a allai fod yn gymwys, i'r cerbyd hwnnw.". [Sylwch felly fod yna eithriad i'r eithriad i'r eithriad!]

8.Mae'r ail eithriad wedi'i ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn -

"(14)Diogelwch trafnidiaeth (ar wahân i reoleiddio sy'n ymwneud â chludo oedolion goruchwylio ar gerbydau a ddefnyddir yn unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr))".

**Darpariaethau'r Mesur Arfaethedig**

9.Diben y Mesur arfaethedig yn fras yw mynd i'r afael â materion diogelwch ar fysiau ysgol nad oedd modd mynd i'r afael â nhw ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y prif Fesur"). Mae'r rhan hon o'r briff yn crynhoi darpariaethau'r Mesur arfaethedig ac yn nodi'n benodol faterion cyfreithiol a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Bydd adrannau 1-12 o'r Mesur arfaethedig yn mewnosod adrannau 14A-14L yn y prif Fesur. O ran symlrwydd, rhifau'r Mesur arfaethedig sydd wedi'u defnyddio drwyddi draw

10.Mae'r Mesur arfaethedig yn diwygio'r prif Fesur i wneud y darpariaethau a ganlyn. Sylwer y byddai'r holl reoliadau a wneid o dan y pwerau a gynhwysir yn y Mesur hwn yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 14(5).

**11.**Mae **adran 1** yn rhoi pwer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn pennu pa ddisgrifiadau o gerbydau a all gael eu defnyddio i gludo dysgwyr. Sylwer y bydd hyn yn gosod dyletswyddau ar y cyrff perthnasol (sy'n cael eu diffinio yn adran 13 fel awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir) a darparwyr cludiant i ddysgwyr (busnesau bysiau a thacsis). Sylwer hefyd mai dim ond i gludiant i ddysgwyr y bydd y corff perthnasol 'yn ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall' y bydd y rheoliadau'n gymwys, ac na fydd y gofynion yn gymwys felly i fysiau gwasanaeth. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio yn ei lythyr at y Cadeirydd at y gofyniad bod rhaid cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol. Mae'n bosibl felly y bydd y Pwyllgor am ystyried gydag ef a fydd hyn yn gymwys i ofyniad bod rhaid gosod gwregysau sedd sydd eisoes yn bodloni'r safonau technegol presennol.

**12.**Mae **adran 2** yn rhoi pwer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau rhagnodedig yn cael eu gwneud i recordio delweddau gweledol neu seiniau o ddigwyddiadau sy'n digwydd ar gludiant i ddysgwyr.

**13.**Mae **adran 3** yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol gynnal asesiadau risg diogelwch ar gludiant i ddysgwyr. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gyfyngedig i ddiogelwch y cerbyd, ac mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ofyn am eglurhad o'r materion sydd i'w hystyried mewn asesiad o'r fath.

**14.**Mae **adran 4** hefyd yn cynnwys pwer i wneud rheoliadau, sef rheoliadau yn yr achos hwn i'w gwneud yn ofynnol i hyfforddiant diogelwch gael ei roi ynglyn â chludiant i ddysgwyr a gweithio gyda phlant. Mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ofyn am eglurhad ynghylch pa hyfforddiant a fwriedir a pham na all gael ei gynnwys ar wyneb y Mesur.

**15.**Mae **adran 5** yn cynnwys pwer i wneud rheoliadau ynglyn â goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr. Sylwer mai at 'aelod o staff corff perthnasol' (awdurdodau lleol ac ysgolion) y cyfeirir ac nid at staff y cwmnïau bysiau.

**16.**Mae **adran 6** yn rhoi ei heffaith i'r Atodlen sy'n cynnwys darpariaethau manwl ynglyn â sancsiynau sifil am dorri rheoliadau diogelwch a wneir o dan adrannau 1 a 2 o'r Mesur hwn (sef adrannau 14A a 14B o'r prif Fesur). Mae'n ymddangos bod yr Atodlen yn cynnwys darpariaethau gweddol safonol ynghylch sancsiynau sifil, ond ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen mae yna bwer cyffredinol i wneud rheoliadau sy'n gwneud rhagor o ddarpariaethau ynghylch sancsiynau sifil.

**17.**Mae **adran 7** yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi awdurdod gorfodi drwy reoliadau. Mae hyn yn cynnwys y pwer i wneud addasiadau i "unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r awdurdod gorfodi". Mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ofyn am dystiolaeth pam nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eisoes pwy fydd yr awdurdod gorfodi er mwyn rhoi sylw i'r mater ar wyneb y Mesur.

18.Mae'r adrannau a ganlyn yn cynnwys darpariaethau gorfodi – pwer mynediad (**adran 8**), pwer arolygu (**adran 9**), pwer i fynnu gwybodaeth (**adran 10**). Does dim pwerau dirprwyedig yn yr adrannau hyn.

**19.**Byddai **adran 11** yn galluogi'r Gweinidogion i wneud rheoliadau ynghylch atebolrwydd swyddogion corff corfforaethol a phartneriaid mewn partneriaeth fusnes. Nid yw swyddogion corff corfforaethol (a fyddai'n cynnwys cyrff llywodraethu ysgolion) wedi'u diffinio yn y Mesur ac mae'n bosibl yr hoffai'r Pwyllgor ystyried pam na ellid ymdrin â hynny ar wyneb y Mesur.

**20.**Mae **adran 12** yn cynnwys gofyniad bod rhaid ymgynghori â'r awdurdodau lleol ac "ag unrhyw bersonau eraill y mae yn eu barn hwy [Gweinidogion Cymru] yn briodol ymgynghori â hwy". Does dim gofyniad penodol bod rhaid ymgynghori â darparwyr bysiau, er mai ar eu cerbydau nhw y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio.

**21.**Mae **adran 13** yn cynnwys darpariaethau dehongli ac mae diwygiadau i adran 27 o'r prif Fesur wedi'u nodi yn **adran 14**. O ganlyniad, **mae rheoliadau a wneir o dan y Mesur arfaethedig yn dod o dan weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad Cenedlaethol**.

**22.Adran 15** yw'r ddarpariaeth gychwyn. Daw'r Mesur i rym ddau fis ar ôl cael y gymeradwyaeth frenhinol yn hytrach na thrwy Orchymyn cychwyn gan Weinidogion Cymru. Rhoddir yr enw byr yn **adran 16**.

**Materion o ddiddordeb**

23.Mae'n bosibl y bydd y mater a ganlyn o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Heblaw'r darpariaethau cychwyn a'r enw byr, diwygiadau i'r prif Fesur yw'r holl ddarpariaethau yn y Mesur hwn. Bydd yr Aelodau'n cofio tystiolaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr o blaid cydgrynhoi. Mae'n bosibl felly yr hoffai'r Aelodau gael gwybod pam y penderfynwyd bwrw ymlaen drwy gyfrwng diwygiadau yn hytrach na disodli'r prif Fesur â mesur newydd a fyddai'n cynnwys y darpariaethau i gyd.

**Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Services**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**
**Tachwedd / November 2010**